

Adolygiad Cyflym Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

Rhwystrau a hwyluswyr manteisio ar sgrinio am ganser (y fron, ceg y groth a'r coluddyn) mewn poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol

Rhif adroddiad – RR00035, Gorffennaf 2022

Manylion yr Adolygiad Cyflym

Adolygiad wedi'i gynnal gan:

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Tîm Adolygu:

- Hannah Shaw
- Chukwudi Okolie
- Alesha Wale
- Jordan Everitt

Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC ar:

14^{eg} Mehefin 2022

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:

28^{ain} Mehefin 2022

Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC yn:

[mis, blwyddyn]

Tîm WCEC:

Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis, Micaela Gal a Jane Greenwell a gyfrannodd at ddrafftio Crynodeb o'r Prif Bwyntiau, adolygu a golygu

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

RR00035. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o rwystrau a hwyluswyr manteisio ar sgrinio am ganser (y fron, ceg y groth a'r coluddyn) mewn poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Gorffennaf 2022

Gellir lawrlwytho'r adroddiad hwn o:

<https://ymchwilielchydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru>

Ymwadiad: Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

Rhwystrau a hwyluswyr manteisio ar sgrinio am ganser (y fron, ceg y groth a'r coluddyn) mewn poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol

Rhif adroddiad – RR00035, Gorffennaf 2022

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Beth ydy Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrro neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Maent yn cymryd 1-2 fis, gan ddibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/ cwestiwn/ cwestiynau ymchwil, graddau'r sylfaen dystiolaeth a'r math o ddadansoddi sy'n ofynnol i gyfuno'r dystiolaeth.

Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Is-adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Yn y Deyrnas Unedig (y DU), mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn darparu **rhaglenni sgrinio seiliedig ar y boblogaeth ar gyfer canser y fron, y coluddyn a cheg y groth**. Fe oedwyd â'r rhaglenni hyn dros dro ym **mis Mawrth 2020**, oherwydd y pandemig COVID-19, gan arwain at niferoedd mawr o'r boblogaeth gymwys yn gweld oedi â'u gwahoddiadau. Mae'n bosibl bod y tarfu hwn wedi cael **effaith anghymesur ar boblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol** a oedd, cyn y pandemig, yn manteisio'n llai aml ar wasanaethau. Mae'n bosibl bod rhai pobl hefyd yn **llai bodlon i fynychu clinigau sgrinio ar ôl y pandemig**. Efallai y bydd angen addasu ymyriadau ac ymgyrchoedd sydd â'r nod o annog pobl i gymryd rhan mewn sgrinio am ganser ar ôl y pandemig, yn enwedig y rheini sy'n targedu poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Nod yr adolygiad cyflym hwn oedd **nodi'r hwyluswyr a'r rhwystrau rhag manteisio ar wasanaeth sgrinio am ganser y fron, y coluddyn a cheg y groth ymhlith poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol** (e.e. y rheini sy'n agored i niwed yn glinigol, sy'n gwarchod eu hunain, sydd â chydafiacheddau, sydd o leiafrifoedd ethnig neu oherwydd amddifadedd cymdeithasol, rhyw, oedran) **yn ystod y pandemig ac ers iddo ddechrau**, gan ddefnyddio tystiolaeth o'r **DU a gwledydd eraill sydd â rhaglenni sgrinio canser tebyg (fel Awstralia a'r Iseldiroedd)**, a **chymharu hyn â'r llenyddiaeth cyn y pandemig**. Defnyddiwyd chwiliad pennu cwmpas ategol am adolygiadau systematig a oedd wedi'u cyhoeddi er mwyn nodi'r llenyddiaeth cyn y pandemig.

Darganfyddiadau Allweddol

Nodwyd tair astudiaeth sylfaenol (dau dreial wedi'u cyhoeddi ac un treial a oedd dal yn mynd rhagddo) a gafodd eu cynnal yn ystod y pandemig. Cynhwyswyd pum adolygiad systematig o dystiolaeth cyn y pandemig hefyd.

Graddau'r sylfaen dystiolaeth

- Roedd un **astudiaeth ansoddol** yn asesu'r **rhwystrau canfyddedig** rhag mynychu **clinigau sgrinio am ganser y fron ymhlith menywod Teithwyr Gwyddelig yng Ngweriniaeth Iwerddon**.
- Roedd un **astudiaeth ansoddol** yn archwilio'r **hwyluswyr a'r rhwystrau rhag manteisio ar sgrinio am ganser y fron, y colon a'r rhefr a cheg y groth ymhlith menywod Mwslimaidd yn yr Alban**.
- Mae un hap-dreial wedi'i reoli o ymyrraeth newid ymddygiad i gynyddu nifer y rheini sy'n manteisio ar sgrinio am ganser ceg y groth mewn poblogaethau amddifad a diamddifad (a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig) yn cynnwys casglu data ar rwystrau a oedd wedi'u dynodi ymlaen llaw.
- Nodwyd **pum adolygiad systematig a oedd yn adrodd** ar yr hwyluswyr a'r rhwystrau **cyn y pandemig** rhag manteisio ar sgrinio am ganser y fron, y coluddyn a cheg y groth mewn poblogaethau amrywiol sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Roedd yr adolygiadau'n adrodd ar **yr hwyluswyr a'r rhwystrau ymhlith grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME), grwpiau cymdeithasol-ddemograffig lle mae'r nifer sy'n manteisio'n isel, pobl â salwch meddwl neu anableddau dysgu, pobl ag anableddau corfforol, pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thraws a menywod sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol**.

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Roedd y data ar gyfer yr astudiaethau ansoddol wedi'u casglu yn gynnar yn 2021 (mis Mawrth) a 2022.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd

- Er bod y ddwy astudiaeth ansoddol wedi'u cynnal yn ystod y pandemig COVID-19, nid oedd yr un ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar effaith y pandemig ar yr amgyffrediad ynglŷn â sgrinio ymhlith grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.
- Roedd y rhwystrau a nodwyd yn ystod y pandemig yn cynnwys: **ofn deilliant negyddol; ofn y weithdrefn; embaras a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol; diffyg cefnogaeth y teulu a'r gymuned; diffyg addysg ac ymwybyddiaeth; llythrennedd; gwarth cymdeithasol ynglŷn â chanserau; rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol; addasrwydd apwyntiadau**.
- Roedd y rhwystrau cyn y pandemig yn cynnwys: ofn a gorbryder; cywilydd ac embaras; diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth; gwarth canfyddedig yn gysylltiedig â chanser; rhwystrau iaith a chyfathrebu; diffyg cefnogaeth y teulu a'r gymuned; credoau crefyddol a diwylliannol; rhwystrau logistaidd; rhyw yr ymarferydd; drwgdybiaeth feddygol; bygythiad i wrywod; camwahaniaethu a hiliaeth; camrywioli; profiadau negyddol yn y gorffennol.

- **Roedd yr hwyluswyr a nodwyd yn ystod y pandemig yn cynnwys: ymddiriedaeth; cynnig cefnogaeth ieithyddol; y defnydd o dystiolaethau personol/ straeon am sgrinio am ganser ac am oresi yn ystod cyfarfodydd grŵp ffocws.**
- Roedd yr hwyluswyr cyn y pandemig yn cynnwys: profiadau positif yn y gorffennol; anogaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; cymunedau ac aelodau cefnogol o'r teulu; darpariaeth trafnidiaeth; cynnig cefnogaeth ieithyddol; staff gofal iechyd cyfeillgar a hawdd mynd atynt; cymeradwyaethau ymarferwyr; cefnogaeth addysgol.

Tystiolaeth o'r ansawdd gorau

- Ystyriwyd bod y ddwy astudiaeth ansoddol a gynhaliwyd yn ystod y pandemig o ansawdd uchel ond roedd y ddwy yn cynnwys poblogaethau sampl yr oedd y rhai a gynrychiolwyd ynddynt yn gyfyngedig.

Goblygiadau i Bolisi

- **Ni nodwyd unrhyw astudiaethau sylfaenol a oedd yn archwilio effaith y pandemig yn benodol ar yr hwyluswyr a'r rhwystrau rhag manteisio ar sgrinio ymhlith grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.**
- Nid oedd y darganfyddiadau'n dangos **gwahaniaeth amlwg yn yr hwyluswyr a'r rhwystrau rhag manteisio ar sgrinio cyn ac yn ystod y pandemig COVID-19 mewn poblogaethau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol.** Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a yw hyn oherwydd nad yw'r rhain yn wir wedi newid neu fod hyn yn adlewyrchiad o ddiffyg tystiolaeth sydd ar gael.
- **Mae'n bosibl mai dim ond i'r grwpiau poblogaeth a astudiwyd y bydd modd trosglwyddo'r darganfyddiadau.**

Cryfder y Dystiolaeth

Mae'r dystiolaeth wedi'i chyfyngu i ddwy astudiaeth ansoddol a gynhaliwyd yn ystod y pandemig. Roedd y ddwy astudiaeth o ansawdd uchel ond cyfyngedig oedd y wybodaeth a'r perthnasedd rhannol i ateb cwestiwn yr adolygiad.